Spectacle Theatre Ltd

The Factory

Jenkins Street

Porth

CF39 9PP

01443 681024

Annwyl Ddarpar Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr Theatr Spectacle Cyf.

Mae'n bleser gennyf amgau pecyn cais, a ddylai gynnwys yr holl wybodaeth y fydd ei hangen arnoch ynglŷn â'r broses benodi a beth mae'n ei olygu i fod yn Ymddiriedolwr Theatr Spectacle Cyf.

Caiff Theatr Spectacle Cyf ei lywodraethu gan saith o Ymddiriedolwyr ar hyn o bryd, sy'n gweithio'n agos gyda Rheolwr y Theatr a'r Tîm Gweinyddol - Cyllid.

Mae disgwyl i'r Ymddiriedolwyr fod yn bresennol yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd ynghyd â chyfarfodydd strategol ychwanegol y Bwrdd neu gyfarfodydd yr is-bwyllgor achlysurol. Cynhelir cyfarfodydd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn yn ogystal â'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Fel arfer, caiff y cyfarfodydd eu cynnal ar nos Fawrth gan gychwyn am 6.30pm.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu bodloni gofynion y Fanyleb Person amgaeedig.

Spectacle Theatre is a company limited by guarantee registered in Wales No. 1555311. Registered Charity No. 1059118 Vat Reg. No. 656 1312 51

Mae Theatr Spectacle yn qwmni cyfyngedig dan warant, cofrestredig yng Nghymru Rhif 1555311. Rhif Elusen Cofrestredig 1059118 Rhif TAW 656 1312 51

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r wybodaeth amgaeedig, cysylltwch â Steve Davis, Rheolwr y Theatr ar 07900 493 691 neu anfonwch e-bost at : steve.spectacletheatre@gmail.com. Bydd yn ateb eich cwestiynau neu yn eich cyfeirio ataf fi neu at ymddiriedolwr arall, fel y bo'n briodol, i drafod unrhyw faterion yn fanylach. Gobeithio y bydd y pecyn hwn yn ddefnyddiol i chi. Byddwn yn croesawu clywed gennych os ydych yn credu bod gennych yr arbenigedd a'r sgiliau i'w cynnig i Theatr Spectacle Cyf.

Yn gywir

*Meryl Hopwood*

Meryl Hopwood

Cadeirydd Dros Dro